**Annwyl Ymgeisydd,**

Diolch i chi am ddangos diddordeb yn swydd Rheolwr Rhaglen Gwirfoddolwyr Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CGGC).

Mae'r swydd yma'n rhan o brosiect Amdani Conwy! – prosiect newydd a chyffrous sydd wedi'i ariannu gan Spirit of 2012 i gefnogi gwirfoddoli yn y gymuned. Mae'r prosiect yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Celfyddydau Anabledd Cymru a Gwasanaethau Cymunedol a Gwirfoddol Conwy fel rhan o strategaeth ddiwylliannol Creu Conwy – Tanio'r Fflam, 2021-2026.

Bydd Amdani yn creu rhaglen wirfoddoli gynhwysol a diddorol sy'n canolbwyntio ar ddigwyddiadau diwylliannol a galluogi trigolion a chymunedau Conwy i ffynnu a blodeuo. Mae'r rhaglen wirfoddoli hon yn agored i bawb sy'n byw yng Nghonwy, gyda phwyslais ar sicrhau bod y rheiny sy'n wynebu mwy o rwystrau, yn enwedig pobl fyddar a phobl anabl, a'r rheiny sy'n unig neu dan anfantais economaidd, yn derbyn mwy o gefnogaeth i gymryd rhan.

Bydd y rhaglen yn cynyddu cynrychiolaeth demograffeg amrywiol ein cymunedau, gan ailddyfeisio a rhoi bywyd newydd i gyfleoedd gwirfoddoli ar draws y sector. Rydym ni'n ymrwymo i gyfleoedd gwirfoddoli sy'n fwy ymatebol, hygyrch, cynhwysol a difyr.

Byddwn yn dathlu cyflawniadau ein gwirfoddolwyr yn eu cymunedau ac ar draws y sir, a thrwy ein rhwydweithiau partner byddwn yn gwella eu synnwyr o berthyn ac yn ysbrydoli eraill sy'n teimlo fel pe baent wedi'u heithrio rhag cymryd rhan.

# Swydd Ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd:** | Rheolwr Rhaglen Gwirfoddolwyr Amdani Conwy! |
| **Lleoliad:** | Trefniadau gweithio hybrid: gartref ac yn swyddfa Bae Colwyn |
| **Yn atebol i:** | CGGC/Grŵp Llywio Amdani |
| **Wythnos waith:** | 37 awr yr wythnos, cyfnod penodol tan ddiwedd mis Rhagfyr 2024 |
| **Dechrau:** | Ionawr 2023 |

**Prif Dasgau:**

Bydd Rheolwr Rhaglen Gwirfoddolwyr Amdani Conwy, drwy gysylltu â Swyddog Mynediad a Chynhwysiant Amdani, yn gyfrifol am greu a datblygu rhaglen wirfoddoli gynhwysol a diddorol ar gyfer digwyddiadau diwylliannol yng Nghonwy. Nod y rhaglen yw cynyddu cynrychiolaeth demograffeg amrywiol ein cymunedau, ac ailddyfeisio a rhoi bywyd newydd i gyfleoedd gwirfoddoli, gan eu gwneud yn fwy ymatebol, hygyrch, cynhwysol a difyr!

**Mae'r dyletswyddau'n cynnwys:**

- Datblygu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli cynhwysol ac o ansawdd, gydag ystod o fudd-ddeiliaid a phartneriaid diwylliannol perthnasol – yn y sector gwirfoddol a'r sector statudol yn Sir Conwy, gan gynnwys yr ardal wledig
- Hyrwyddo/marchnata cyfleoedd gwirfoddoli drwy lwyfan Gwirfoddoli Cymru a llwyfannau eraill e.e. cyfryngau cymdeithasol
- Recriwtio, atgyfeirio a lleoli gwirfoddolwyr i gyfleoedd o ansawdd gan eu cefnogi a chanolbwyntio arnyn nhw
- Darparu hyfforddiant perthnasol i wirfoddolwyr a sefydliadau sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr
- Cefnogi, monitro a gwerthuso lleoliadau gwirfoddolwyr yn gyson i sicrhau bod y profiadau yn gadarnhaol a chynhwysol
- Dathlu, cydnabod a gwobrwyo ymdrechion gwirfoddolwyr
- Sicrhau y cedwir at Fframwaith Amdani Conwy, y brandio a'r hunaniaeth a'u bod yn cael eu hyrwyddo
- Sicrhau bod targedau a dangosyddion allweddol y prosiect yn cael eu cyrraedd yn iawn, gan ddarparu adroddiadau cynnydd chwarterol ar gyfer hawliadau'r prosiect
- Sicrhau cyswllt parhaus gyda Strategaeth Ddiwylliannol Creu Conwy a'i phartneriaeth
- Ysgrifennu adroddiadau a'u cyflwyno i Bwyllgor Llywio Amdani
- Sicrhau bod Ysbryd Amdani yn gadael etifeddiaeth yng nghymunedau Conwy

**Sgiliau, Profiad a Gwybodaeth Angenrheidiol:**

- Gwybodaeth a phrofiad o weithio gyda gwirfoddolwyr a sefydliadau sector gwirfoddol
- Profiad perthnasol neu gymhwyster proffesiynol
- Mae sgiliau cyfathrebu ardderchog yn hanfodol. Bydd yn rhaid i ddeiliad y swydd allu siarad Cymraeg yn gyfforddus
- Sgiliau cyfrifiadurol da, yn cynnwys medrusrwydd gyda phecynnau Windows/Office
- Gallu gweithio ar eich liwt eich hun a dan bwysau, a chadw at derfynau amser
- Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn fodlon teithio
- Sgiliau rhyngbersonol a chyflwyno gwych

**Cyflog ac Amodau Gwasanaeth:**

SCP17 – £24,920, 37 awr yr wythnos.

Cynllun gofal iechyd preifat.

Trefniadau gweithio hyblyg.

Mae'r swydd yn amodol ar wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Pensiwn: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu gynllun preifat ar gael.

Mae gweithwyr newydd CGGC yn gorfod cwblhau cyfnod prawf o 6 mis. Mae'r cyfnod rhybudd i derfynu cyflogaeth yn un mis i bawb.

Mae CGGC yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn annog ceisiadau gan unigolion o gefndiroedd amrywiol ac wedi'u tangynrychioli, a'r rheiny sydd â phrofiad ymarferol o'r holl nodweddion a ddiogelir.

## Gwybodaeth am Amdani!

Bydd y prosiect yn ceisio:

**Adfer** – Gwrth-droi'r dirywiad mewn gwirfoddoli ers COVID drwy gefnogi pobl i ddychwelyd neu roi cynnir ar gyfleoedd gwirfoddoli llawn hwyl, creadigol ac yn bersonol.

**Cynnwys** – Cynyddu cynrychiolaeth profiad ymarferol o wirfoddoli, yn defnyddio ymchwil i gyd-ddylunio fframwaith gwirfoddoli newydd, perthnasol a realistig sy'n diwallu anghenion ein cymunedau.

**Uno** – Drwy wirfoddoli yn ystod digwyddiadau diwylliannol byddwn yn meithrin synnwyr o berthyn a hunaniaeth a rennir ar draws ein carfan o wirfoddolwyr.

**Addasu** – Byddwn yn creu cyfleoedd gwirfoddoli pwrpasol sy'n cyd-fynd â bywydau prysur pobl. Bydd y cyfleoedd yn adlewyrchu'r dirwedd gwirfoddoli sydd wedi newid ers COVID, datblygiadau digidol ac anghenion sectorau gwahanol ein cymuned.

**Gwreiddio** – Mae Amdani! wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â Strategaeth Ddiwylliannol Creu Conwy ac yn lleoli gweithgareddau mewn ardaloedd sbotolau yn Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst, gan wreiddio gweledigaeth ddiwylliannol hirdymor.

Bydd y prosiect yn penodi dau swyddog.

**Rheolwr Rhaglen Gwirfoddolwyr, CGGC**

Bydd y swyddog hwn yn cydlynu'r rhaglen wirfoddoli, gan weithio'n agos gyda'r Swyddog Mynediad a Chynhwysiant i sicrhau rhaglen hygyrch wedi'i dylunio ar y cyd sy'n cynnwys fframwaith gwirfoddoli, recriwtio, cefnogaeth a chydnabod.

**Swyddog Mynediad a Chynhwysiant, Celfyddydau Anabledd Cymru**

Bydd y swyddog hwn yn gyfrifol am weithio'n agos gyda hwyluswyr creadigol pobl fyddar a phobl anabl, pobl sydd eisoes yn gwirfoddoli a darpar wirfoddolwyr, a phartneriaid diwylliannol i ddatblygu cyfleoedd peilot newydd. Gyda'i gilydd bydd y grwpiau hyn yn herio fframweithiau gwirfoddoli, o'r rolau i'r recriwtio, ac yn cyd-ddylunio cyfleoedd newydd sy'n hyblyg, priodol a hygyrch. Bydd y gyllideb ar gyfer mynediad yn cael ei rhannu a'i darparu gan ddeiliad y swydd hon.

**Gwybodaeth am CGGC**

Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CGGC) yw'r corff ambarél sydd wedi'i sefydlu i ddatblygu a hyrwyddo gweithredu yn y gymuned a gwirfoddoli yn Sir Conwy, ac eleni mae'n dathlu chwarter canrif o waith. Mae'n sefydliad partner Cefnogi Trydydd Sector Cymru, sef rhwydwaith o sefydliadau cymorth ar gyfer trydydd sector Cymru.

Mae CGGC yn ceisio darparu cymorth cynhwysfawr i grwpiau cymunedol ar faterion fel llywodraethu, cynnwys gwirfoddolwyr, cyllid cynaliadwy, ymgysylltu a dylanwadu.

## Celfyddydau Anabledd Cymru

Mae Celfyddydau Anabledd Cymru yn ceisio adeiladu ar ei effaith fel yr arweinydd celfyddydau cenedlaethol ar gyfer celfyddydau pobl anabl a phobl fyddar, i ysgogi a chreu profiadau celfyddydol o ansawdd sy'n rhoi budd i bawb. Mae'n cyfarwyddo cefnogaeth i artistiaid ifanc a sefydledig ledled Cymru sy'n anabl neu'n fyddar, gan geisio cael effaith ryngwladol o ran hyrwyddo mynegiadau ac ymarfer celfyddydau drwy lens anabledd.

Mae Celfyddydau Anabledd Cymru wedi dod yn fwy adnabyddus o fewn sector celfyddydau sefydledig Cymru, gyda chyfeiriad cadarn, egnïol a chlir ar gyfer y dyfodol. Bydd yn creu mwy o gyfleoedd ar gyfer artistiaid, yn cefnogi'r sector celfyddydol ehangach drwy greu cyfleoedd cydweithio, cynghreiriau ac arferion cynhwysol.

Mae Celfyddydau Anabledd Cymru yn ceisio dylanwadu ar y lefel uchaf, gan barhau ac adeiladu ar berthnasau gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymru Greadigol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyngor Prydeinig, yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Llywodraeth y DU a'r UE, sefydliadau celfyddydol lleol a rhyngwladol eraill a gwneuthurwyr polisïau, yn arbennig Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

[Ffurflen Gais]